Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 2: 13-23

ADNOD ALLWEDDOL
1 Ioan 3: 8

Gwers 4 Stori'r Nadolig – Dihangfa Min Nos!

Fyddwch chi'n cael hunllef weithiau? Dyna falch fyddwn ni fod y cyfan drosodd wedi i ni ddeffro! Pan siaradodd Duw â Joseff yr eildro, mae'n siŵr iddo ddymuno mai dim ond hen freuddwyd gas oedd y cyfan. Ond roedd yn waeth na hynny, oherwydd roedd Duw yn ei rybuddio bod helynt yn ei aros!

C Cyfatebwch ddwy hanner bob brawddeg drwy ysgrifennu'r rhif cywir yn y blwch gwag.

1	Ymddangosodd yr angel i Joseff		hyd nes y dywedai'r Arglwydd wrtho am ddychwelyd.
2	Dywedwyd wrth Joseff am ffoi		roedd Herod yn ceisio lladd Iesu.
3	Roedd Joseff i fynd â		i'r Aifft.
4	Roedd Joseff i fynd yno oherwydd		Mair ac Iesu gydag e.
5	Roedd Joseff i aros yno		wedi i'r Doethion ddychwelyd adref.

5

Byddai'r ddihangfa hon gyda'r nos a'r daith ddiweddarach yn ôl i Israel yn cyflawni proffwydoliaeth arall a roddwyd gannoedd o flynyddoedd ynghynt.

Ysgrifennwch eiriau'r proffwyd. (Gweler adnod 15)



1

Atebwch y cwestiynau ac yna rhowch gylch o gwmpas yr atebion ar y CHWILAIR. Maent wedi eu cuddio tuag ymlaen, yn ôl, i fyny, i lawr ac yn groeslinol.

➤	R	O	E	Dd	H	E	R	B
B	E	Th	L	E	H	E	M	R
H	O	D	A	M	L	A	Dd	E
I	E	E	S	Y	U	Y	B	U
R	E	R	N	W	Y	L	O	Dd
I	N	N	O	D	E	W	Y	W
Dd	A	N	E	D	D	I	G	Y
J	E	R	E	M	E	I	A	D

1. Pwy oedd wedi digio wrth y Doethion?
.....
2. Ble'r oedd y bechgyn bach yn byw?
.....
3. Faint oedd oed rhai ohonynt?
.....
4. Pa lyfr o'r Hen Destament sy'n dilyn Eseia ac sy'n cael ei enwi yn adnod 17?
.....
5. Beth ddywedodd y proffwyd fyddai i'w glywed? .....
6. Beth ddefnyddiodd Duw i rybuddio Joseff? .....

6

C Dilynwch y saeth ar y CHWILAIR, a defnyddiwch y llythrennau sydd ar ôl i ganfod beth roedd Herod am ei wneud pan roddodd ei orchmynion erchyll!

1

Roedd y weithred greulon hon yn rhan o gynllwyn erchyll y diafol i ddinistrio'r Arglwydd Iesu. Yn wir, drwy gydol bywyd yr Arglwydd Iesu, bu'r diafol yn ymosod yn barhaus Arno, ac yn ceisio Ei rwystro rhag gwneud ewyllys Duw. Pam y gwnaeth y diafol hyn? Drwy Ei farwolaeth iawnol ar y Groes, roedd yr Arglwydd Iesu yn mynd i drechu'r Un Drwg. Ydych chi'n cofio addewid Duw yng Ngardd Eden? Edrychwch eto ar Wers 1 a Genesis 3:15. Diolch byth, cadwodd Duw yr Arglwydd Iesu yn ddiogel yn yr Aifft, yng ngofal Mair a Joseff.

C Atebwch y cwestiynau canlynol yn y Nodiadur.

Nodiadau

Pryd y llefarodd Duw eto wrth Joseff mewn breuddwyd? (2:19)

.....

I ble'r oedd e i fynd â'r Plentyn bach? (2: 20)

.....

Pam nad oedd Joseff am ddychwelyd i Jwdea? (2: 22)

.....

I ble'r aeth e yn lle hynny? (2: 23)

.....

4

C Ysgrifennwch FRAWDDEG OLAF yr Adnod Allweddol. Yna, rhowch gylch o gwmpas ENW'R UN oedd wrth wraidd cynllwyn creulon Herod ac a gafodd ei drechu pan fu farw'r Arglwydd Iesu ar groes Calfaria.

3

Gwelwn felly fod STORI'r NADOLIG yn llawer mwy na dim ond preseb ym Methlehem! Mae'n stori hyfryd sy'n cynnwys cymysgedd o lawenydd a thristwch. Po fwyaf yr ystyriwn hyn, mwyaf yn y byd y down i sylweddoli na ddigwyddodd dim ar ddamwain. Cafodd y cyfan ei drefnu a'i weithredu'n ofalus gan Dduw, yn union fel yr addawodd Ef!

Nadolig Llawen Iawn i Chi!

"Ganwyd i CHI heddiw ... Waredwr,

yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd." Luc 2: 11.

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120